

Chwarae mewn Ysbyty ar draws CTM

'Mae fy hawliau yn rhoi llais i fi'

Helen Walters, Uwch Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus, Tîm Iechyd Cyhoeddus BIPCTM Clare Ibbs,
Nyrs Arweiniol Gwella Ansawdd Plant a Theuluoedd, BIPCTM
Marianne Mannello, Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Polisi, Cymorth ac Eiriolaeth, Chwarae Cymru

1 Cefndir

Mae chwarae mewn gofal iechyd yn cynnig llawer o fanteision i blant a theuluoedd. Mae hyn yn cynnwys:

Gwella lles

Lleddfu gorbryder, ofn, straen

Lleihau poen

Adeiladu gwytnwch

Adfer ymdeimlad o reolaeth

Helpu lles teulu

2 Nod

Gwella dealltwriaeth o'r ddarpariaeth chwarae bresennol ar gyfer cleifion mewnol plant i ysbytai cyffredinol dosbarth BIPCTM.

3 Methodoleg

1: Cynllun

Deall rôl chwarae mewn lleoliad cleifion mewnol paediatrig o safbwyntiau staff, teuluoedd a phlant, gan nodi cyfleoedd i wella

2: Gwneud

Comisiwn Chwarae Cymru i ddylunio a chynnal y gwerthusiad gwasanaeth gan ddefnyddio'r Model COM-B.

Casglu data: arsylwadau, holiaduron, trafodaethau

3: Astudio

Dadansoddi data i amlygu cryfderau, heriau ac aliniad ag egwyddorion Chwarae Cymru, gan gynhyrchu argymhellion gwasanaeth allweddol

4: Gweithredu

Defnyddio canfyddiadau i lywio gwelliannau graddol i wasanaethau chwarae yn BIPCTM

5 Casgliad

Nododd yr asesiad gwasanaeth nifer o argymhellion, a ddangosir isod, i gryfhau'r ddarpariaeth chwarae ar draws CTM.

Er gwaethaf staff chwarae arbenigol cyfyngedig, mae diwylliant 'caniatâd i chwarae' yn bodoli ar draws y safleoedd, gyda staff brwdfrydig mewn amrywiol rolau yn darparu cyfleoedd i blant chwarae ac yn sicrhau mynediad at le ac adnoddau.

- Sefydlu Cymuned Ymarfer Chwarae o fewn BIPCTM
- Hyrwyddo mentrau allweddol sy'n cyd-fynd â chwarae gan ddefnyddio dull graddol, gan ymgorf'ori ethos "Un CTM" ym mhob gweithred
- Hyrwyddo pwysigrwydd hawl plentyn i chwarae, ym mhob lleoliad, ledled y sefydliad
- Uwchsgilio gweithwyr proffesiynol, waeth beth fo'u rôl, i gymryd rhan weithredol mewn chwarae gyda phlant

Canlyniadau

Fe wnaethon ni ymgysylltu ag 87 o bobl (29 rhiant, 33 staff, 25 o blant)

4

Pobl

Roedd pob plentyn yn gwerthfawrogi cael staff a oedd yn cefnogi eu chwarae.

Roedd rhieni yn sgorio 'staff i helpu' fel pwysig iawn i helpu plant i chwarae ac ymlacio yn yr ysbyty.

“Roedden ni'n gallu chwarae cuddio pan oedd hi'n dawel”

“Roedd fy mab yn gyfyngedig gan ei fod ar ocsigen. Roedd llawer o ymdrech gan staff i wneud yn siŵr nad oedd wedi diflasu”

Ardaloedd

Mae staff yn gweld ystafelloedd chwarae'r ysbyty yn bwysig, gyda phawb yn nodi eu bod nhw wedi cael eu colli pan gaewyd oherwydd cyfyngiadau Covid-19

“Fe wnaethon ni dreulio cymaint o amser ag y gallwn yn yr ystafell chwarae - roedd yn dda cael lle i chwarae”

Pethau

Dywedodd pob plentyn oedd wedi cwblhau arolwg eu bod yn mwynhau cael mynediad at ystod o offer yn yr ystafell chwarae ac wrth ochr y gwely.

“Roeddwn i'n hoffi chwarae gyda phaent lliwgar”

“Roedd yr holl deganau wedi helpu fy mhientyn i ymlacio”

Chwarae Cymru
Play Wales

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board